


# Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu Cymru 2010-2014

**CUDD-WYBODAETH Y FARCHNAD LAFUR**



Experian™

sgiliauadeiladu

Cynnwys
1 Crynodeb a'r prif ddarganfyddiadau
2 Rhagolwg ar gyfer adeiladu yng Nghymru
3 Rhagolygon swyddi adeiladu yng Nghymru
4 Cymariaethau ar draws y DU

# Cynnwys

**Cudd-Wybodaeth Y Farchnad Lafur**


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb a'r prif ddarganfyddiadau | 02 |
| 2 | Rhagolwg ar gyfer adeiladu yng Nghymru | 04 |
| 3 | Rhagolygon swyddi adeiladu yng Nghymru | 10 |
| 4 | Cymariaethau ar draws y DU | 12 |


## Siartiau a Thablau


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cymhariaeth ranbarthol 2010-2014 | 02 |
| 2 | Cyfartaledd blynyddol twf cynnyrch adeiladu 2010-2014 | 03 |
| 3 | Cynnyrch adeiladu 1992-2008 | 04 |
| 4 | Strwythur y diwydiant adeiladu 2008 | 04 |
| 5 | Strwythur economaidd | 05 |
| 6 | Dangosyddion economaidd | 05 |
| 7 | Twf archebion adeiladu newydd 1993-2008 | 06 |
| 8 | Archebion adeiladu gwaith newydd | 06 |
| 9 | Cynnyrch adeiladu 2010-2011 | 07 |
| 10 | Cyfartaledd blynyddol twf cynnyrch adeiladu 2010-2011 | 08 |
| 11 | Cyfartaledd blynyddol twf cynnyrch adeiladu 2010-2014 | 09 |
| 12 | Cynnyrch adeiladu 2010-2014 | 09 |
| 13 | Cyfanswm cyflogaeth fesul galwedigaeth | 10 |
| 14 | Gofynion recriwtio blynyddol fesul galwedigaeth | 11 |
| 15 | Cyfartaledd blynyddol twf cynnyrch fesul rhanbarth | 12 |
| 16 | Gofynion recriwtio blynyddol fesul rhanbarth | 13 |


I gael mwy o wybodaeth am Sgiliau Adeiladu, gallwch ymweld â'n gwefan.

Sgiliau Adeiladu yw'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer adeiladu a gafodd y dasg gan y Llywodraeth i sicrhau bod gan y diwydiant mwyaf yn y DU'r gweithlu medrus y mae ei angen. Drwy weithio gyda'r Llywodraeth, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr, mae'n gyfrifol am sicrhau bod gan y diwydiant ddigon o gyflogai newydd cymwys a bod y gweithlu presennol yn gwbl fedrus a chymwysedig ac mae'n gyfrifol am wella perfformiad y diwydiant a'r cwmnïau o'i fewn.

# Crynodeb – Cymru

Disgwylir i gyfanswm cynnyrch adeiladu yng Nghymru dyfu ar gyfartaledd o 2.5% rhwng 2010 a 2014, yn uwch na'r ffigwr cyfartalog cenedlaethol o 1.7%. Rhagfynegir y bydd y sector gwaith newydd yn perfformio'n well na'r sector trwsio a chynnal a chadw (R&M) gyda'r cyntaf yn tyfu o 3% a'r olaf o 1.8%. Yn 2014, rhagfynegir y bydd cyfanswm cyflogaeth yng Nghymru'n cyrraedd 127,680, ychydig yn is na lefel 2008 ond i fyny 8.9% ar ffigwr 2010 o 117,290. Mae'r gofynion recriwtio blynyddol (ARR) dros 2010-2014 yng Nghymru'n debygol o fod yn 5,030, llawer yn uwch na chyfartaledd y DU.



**Cymhariaeth ranbarthol 2010-2014**

| | blynyddol mewn cynnyrch % newid cyfartaledd | Twf mewn cyfanswm cyflogaeth | Cyfanswm ARR |
|---|---|---|---|
| **Gogledd Ddwyrain** | 0.6% | 4,660 | 3,190 |
| **Sir Efrog a Humber** | 1.6% | 7,040 | 2,220 |
| **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | 2.6% | 10,220 | 5,260 |
| **Dwyrain Lloegr** | 3.8% | 20,760 | 7,350 |
| **Llundain Fwyaf** | 2.0% | 3,620 | 3,300 |
| **De Ddwyrain** | 0.8% | -280 | 2,330 |
| **De Orllewin** | 0.4% | 1,480 | 3,020 |
| **Cymru** | 2.5% | 10,390 | 5,030 |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | 1.5% | 9,460 | 4,050 |
| **Gogledd Iwerddon** | 1.1% | 1,380 | 720 |
| **Gogledd Orllewin** | 0.1% | 3,190 | 4,100 |
| **Yr Alban** | 2.8% | 21,100 | 7,220 |
| **DU** | **1.7%** | **93,010** | **47,790** |

Ffynhonnell: CSN, Experian
Cyf. CSN Explained Adran 4, Nodyn 2

Disgwylir i'r twf yng Nghymru fod ar gyfartaledd blynyddol o

2.5%

## Prif Ddarganfyddiadau

Ar bron i 8%, disgwylir i'r sector tai preifat gael y cyfartaledd twf blynyddol uchaf rhwng 2010 a 2014. Dylai'r cynnyrch gynyddu'n arbennig o gryf yn y tymor canolig fel cyfuniad o alw tanategol am dai, amodau benthyg credyd yn llacio a'r farchnad dai'n sefydlogi, yn gyrru datblygwyr i gynyddu eu gwaith adeiladu. Fodd bynnag, bydd y gwelliant o sylfaen isel iawn gan fod y cynnyrch yn y sector wedi gostwng erbyn hyn i lefelau na welwyd ers y dirwasgiad yn yr 1990au cynnar.

Rhagfynegir y bydd y sector isadeiledd yn debygol o gael yr un cyfartaledd twf blynyddol cadarn er y bydd y cynnydd mewn cynnyrch yn debygol o fod yn rhan gyntaf y cyfnod o ragfynegiad. Bydd nifer o brosiectau ffordd mawr, fel y cyswllt traffordd tair lôn ddeuol gwerth £350m rhwng Magwyr a Chas-bach a dechrau'r datblygiad gwerth £140m i'r Brifforddd A465 a bydd yr orsaf gynhyrchu tyrbin nwy cylch cyfunol 200MW gwerth £800m ym Mhenfro hefyd yn cyfrannu at gynnyrch dros gyfnod y rhagfynegiad.

Rhagfynegir mai'r sector diwydiannol fydd y sector fydd yn perfformio'n ail orau yng Nghymru rhwng 2010 a 2014. Ar sail cyfartaledd blynyddol, disgwylir i'r cynnyrch dyfu ar raddfa o 3.9% wrth i alw gwell amodau economaidd a galw domestig ac allforio cynyddol roi'r symbyliad i weithgynhyrchwyr adeiladu cyfleusterau newydd. Dylai hyn arwain at dwf cyson, ond cymedrol, yn y sector o 2011 hyd at ddiwedd cyfnod y rhagfynegiad er eto o sylfaen hanesyddol isel iawn.

Disgwylir i gynnyrch tai cyhoeddus dyfu'n arbennig o gryf yn y tymor byr wrth i arian ar gyfer adeiladu unedau tai cymdeithasol ddechrau llifo o Gynulliad Cymru. Fodd bynnag, dylai cyfradd y twf arafu yn y tymor canolig cyn i'r cynnyrch ddisgyn i diriogaeth negyddol yn y ddwy flynedd olaf o'r cyfnod o ragfynegiad wrth i gyfyngiadau ar wariant cyhoeddus ddechrau brathu go iawn.

Y sectorau di-dai a masnachol cyhoeddus yw'r unig rai mewn gwaith newydd i ddangos cyfartaledd twf blynyddol negyddol dros y tymor canolig (-1.7% a -1.1% yn ôl eu trefn). Disgwylir i'r sector di-dai cyhoeddus ddioddef o ganlyniad i ostyngiad mewn gwariant cyhoeddus yn rhan olaf y cyfnod o ragfynegiad wrth i lywodraeth y DU geisio delio â'r diffyg chwyddedig. Er hynny, rhagfynegir y bydd y sector masnachol yn dioddef yn y tymor byrrach (2010 a 2011) oherwydd hyder bregus y defnyddwyr a thwf gwan y gwariant.


Yn 2014, rhagamcanir y bydd cyfanswm cyflogaeth mewn adeiladu yng Nghymru'n cyrraedd 127,680, i lawr ychydig ar ffigwr 2008 er i fyny 8.9% ar ffigwr 2010. Y grwpiau cyflogaeth masnachol uchaf yng Nghymru yn 2008 oedd y fasnach goed a dodrefnu mewnol (16,950) a rheolwyr adeiladu (8,710) gyda thua 13% o'r cyfanswm cyflogaeth yn y cyntaf ac 8% yn yr olaf. Rhwng 2010 a 2014, disgwylir i'r twf mwyaf fod mewn peirianwyr/ffitwyr ffatrïoedd (50%) grwpiau a gweithredyddion peirianneg sifil nec* (33%) gan ragfynegi y bydd yr olaf yn elwa o gadernid y sector isadeiledd

Rhagfynegir mai'r gofynion recriwtio blynyddol ar gyfer 2010-2014 yng Nghymru fydd tua 5,030 gyda'r galw mewnol yn debygol o fod yn y fasnach goed a dodrefnu mewnol (1,070).



Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

### Cyfartaledd blynyddol twf cynnyrch adeiladu 2010-2014 – Cymru




Ffynhonnell: CSN, Experian
Cyf: CSN Explained Adran 4 Nodyn 2

* nec – heb eu dosbarthu mewn man arall

# 2 Rhagolwg ar gyfer adeiladu yng Nghymru

## 2.1 Cynnyrch adeiladu yng Nghymru – trosolwg


Yn dilyn dwy flynedd olynol o dwf, roedd cynnyrch adeiladu yng Nghymru'n dirywio o 8% i £3.8bn (prisiau 2005) yn 2008, y lefel isaf ers 2002.

Y sector gwaith newydd oedd yn gwbl gyfrifol am y gostyngiad yn y gweithgaredd yng Nghymru yn 2008 gyda chyfyngiad mewn cynnyrch o 12% i £2.4bn. Mewn cyferbyniad, tyfodd y sector R&M o 1% i gyrraedd £1.4bn.

Yn 2008, yn y sector tai preifat roedd y perfformiad gwaethaf yng Nghymru wrth i gynnyrch ddirywio o 31% i'w lefel isaf ers 1999. Roedd y sectorau di-dai cyhoeddus a masnachol hefyd yn gwneud yn wael wrth i gynnyrch ddisgyn o 12% a 10% yn eu trefn.

Mewn gwrthgyferbyniad, gwelodd y tri sector gwaith newydd lleiaf gynnydd mewn gweithgaredd yn 2008. Roedd cynnyrch tai cyhoeddus yn arbennig o dda, i fyny 18% i £95m, y lefel uchaf ers 1997. Roedd twf cynnyrch isadeiledd hefyd mewn ffigyrau dwbl, i fyny 13% i £391m tra bod y cynnydd yn y sector diwydiannol yn gymedrol ar 5%.

### Cynnyrch adeiladu 1992-2008 – Cymru





Ffynhonnell: ONS
Cyf: CSN Explained, Adran 4, Nodyn 1

## 2.2 Strwythur y diwydiant

Mae'r diagram, strwythur y diwydiant adeiladu 2008 – DU vs Cymru, yn dangos dadansoddiad fesul sector o adeiladu yng Nghymru o gymharu â'r DU. I bob pwrpas, mae'r canrannau ar gyfer pob sector yn dangos pa gyfran o gyfanswm y cynnyrch sy'n berthnasol i bob sector.

Y gwahaniaeth mwyaf rhwng strwythur y diwydiant adeiladu yng Nghymru a'r un yn y DU yw maint y farchnad R&M. Ar y cyfan, mae'r sector R&M yng Nghymru'n cyfrif am 37% o gyfanswm y cynnyrch, cyfran llawer llai na 42% y DU. Fodd bynnag, ymhlith y sectorau gwaith newydd, mae'r sectorau isadeiledd a'r di-dai cyhoeddus yn gyfatebol mwy o 3% yng Nghymru wrth gymharu â'r DU.

### Strwythur y diwydiant adeiladu 2008 – DU vs Cymru




Ffynhonnell: ONS, Experian

* nec – heb eu dosbarthu mewn man arall

### Strwythur economaidd – Cymru (£biliwn, prisiau 2005)

| Dewis o sectorau | Union 2008 | Rhagolwg o % newid blynyddol, termau real 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau cyhoeddus | 12 | -0.2 | 0.0 | 0.5 | 0.5 | 0.6 | 0.8 |
| Gwasanaethau ariannol a busnes | 8 | -8.0 | -2.1 | -0.9 | 1.4 | 3.1 | 3.4 |
| Trafnidiaeth a chyfathrebu | 2 | -9.9 | -4.0 | 1.4 | 2.9 | 2.7 | 2.6 |
| Gweithgynhyrchu | 8 | -11.8 | -7.3 | -0.5 | 1.9 | 2.2 | 2.4 |
| Dosbarthu, gwestyau ac arlwyo | 6 | -9.7 | -0.5 | 2.3 | 3.2 | 3.3 | 3.1 |
| **Cyfanswm Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC)** | **42** | **-6.6** | **-1.8** | **0.1** | **1.2** | **1.2** | **1.9** |

Ffynhonnell: Experian
Cyf. CSN Explained, Adran 4, Nodyn 3

## 2.3 Trosolwg economaidd

Mae perfformiad disgwyliedig yr economi rhanbarthol neu genedlaethol dros y cyfnod o ragfynegiad (2010-2014) yn arwyddo lle bydd y galw'n debygol o fod gadarnaf yn y sectorau adeiladu.

## 2.4 Strwythur economaidd

Yn 2008, brasamcanwyd mai gwerth economi Cymru oedd tua £42.3bn (prisiau 2005), i fyny 2% wrth gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac mae'n cyfateb i 3.6% o gyfanswm y DU.

Yr elfen fwyaf o economi Cymru oedd y sector gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyfrif am tua 28% o'r cyfanswm gwerth ychwanegol crynswth (GYC) (uwch na ffigwr y DU sydd o dan 22%). Y gwasanaethau ariannol a busnes yw'r ail sector mwyaf yng Nghymru, ond gyda chyfran o ychydig dros 18%, mae'n gyfrannol llai pwysig i economi Cymru na'r DU yn gyffredinol (dros 27%). Y sector dosbarthu, gwestyau ac arlwyo oedd y nesaf ac yn cyfrif am 15% o GYC, yn unol â'r ffigwr cenedlaethol yn gyffredinol.

Y twf mwyaf yn y blynyddoedd diweddar oedd y sector gwasanaethau ariannol a busnes. Cynyddodd ei ran fel cyfran o gyfanswm GYC o 14% ar ddechrau'r degawd i 18% yn 2008, tra mewn gwrthgyferbyniad, roedd cyfran y sector gwasanaethau cyhoeddus yn gostwng o ychydig dros 29% i 28%.

## 2.5 Dangosyddion economaidd sy'n edrych ymlaen

Disgwylir i'r economi yng Nghymru dyfu ar gyfartaledd blynyddol o 0.5% rhwng 2010 a 2014, yn sylweddol arafach nag yn y DU yn gyffredinol (1.6%). Er eu bod yn rhagfynegi y bydd y sector gwasanaethau ariannol a busnes yn bownsio'n ôl yn iachus yn y ddwy flynedd olaf o gyfnod y rhagfynegiad, mae cyfradd cyfartaledd blynyddol y twf yn debygol o fod yn gyffredinol tua 0.9%. Mewn gwrthgyferbyniad, mae'r gyfradd dwf fwyaf yng Nghymru, ar sail cyfartaledd blynyddol, yn debygol o fod yn y sector dosbarthu, gwestyau ac arlwyo (2.3%).

Er eu bod yn rhagfynegi y bydd union incwm gwario cartrefi yng Nghymru'n cynyddu'n arafach na'r cyfartaledd cenedlaethol dros gyfnod y rhagfynegiad, dylai gwariant fesul cartref gynyddu'n gyflymach. Er gwaethaf hyn, disgwylir i'r gymhareb dyled-i-incwm yng Nghymru ostwng rhwng 2010 a 2014.

Yn ôl Cymunedau a Llywodraeth Leol (CLG), roedd prisiau tai yng Nghymru'n disgyn o 2.9% yn 2008 i £160,482 yn dilyn cynnydd blwyddyn ar ôl blwyddyn yn ddilynol. Yn 2009, brasamcanir y bydd prisiau tai wedi disgyn o 9.3% yng Nghymru a disgwyliwn y bydd y duedd ar i lawr hwn yn parhau i mewn i 2010, er yn arafach. Yn 2011, dylai prisiau tai ddechrau codi eto gyda chynnydd o 1.1% a pharhau i godi yn gyflymach hyd at ddiwedd y cyfnod o ragfynegiad.

### Dangosyddion economaidd – Cymru (£biliwn, prisiau 2005 – heblaw ei fod wedi'i nodi'n wahanol)

| | Union 2008 | Rhagolwg o % newid blynyddol, termau real 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Union incwm gwario cartrefi | 35 | 2.7 | -1.9 | 0.5 | 1.0 | 1.5 | 1.8 |
| Gwariant cartrefi | 33 | -4.0 | -3.1 | 1.6 | 3.8 | 3.4 | 2.7 |
| Cymhareb dyled:incwm | 1.1 | 1.3 | -1.3 | -4.1 | -2.9 | -1.5 | -0.9 |
| Prisiau tai (£'000, prisiau presennol) | 160 | -9.3 | -0.9 | 1.1 | 2.0 | 2.4 | 2.8 |
| Diweithdra LFS (miliynau) | 0.09 | 84.3 | 32.1 | 0.8 | -8.9 | -12.3 | -8.9 |

Ffynhonnell: ONS, DCLG, Experian

## Archebion adeiladu gwaith newydd – Cymru (£miliwn, prisiau presennol)

| | Union 2008 | % Newid blynyddol 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai cyhoeddus | 72 | -39.6 | 75.9 | 0.0 | 61.5 | -13.0 |
| Tai preifat | 219 | 10.1 | 16.3 | -3.1 | -8.7 | -60.2 |
| Isadeiledd | 311 | 27.6 | 206.2 | -44.4 | -40.0 | 56.9 |
| Di-dai cyhoeddus | 451 | -19.4 | -10.4 | 57.8 | -16.5 | 16.5 |
| Diwydiannol | 89 | 49.5 | 6.1 | -33.1 | 66.1 | -48.9 |
| Masnachol | 381 | 13.7 | 5.6 | 66.9 | -24.4 | -33.8 |
| **Cyfanswm gwaith newydd** | **1,523** | **6.0** | **30.5** | **6.4** | **-14.9** | **-22.6** |

Ffynhonnell: ONS
Cyf. CSN Explained, Adran 4 Nodyn 4

## 2.6 Archebion adeiladu newydd – trosolwg

Yn 2008, roedd archebion adeiladu newydd yng Nghymru'n gostwng o bron i 23% i £1.5bn (prisiau presennol). Roedd hyn yn mynd â lefel yr archebion i'r pwynt isaf ers 2002.

Y sector tai preifat welodd y dirywiad mwyaf blwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer archebion newydd yn 2008, i lawr 60%. Mae hon y drydedd flwyddyn o gyfyngiad. Roedd archebion diwydiannol hefyd yn crebachu'n sylweddol, i lawr 49% ar lefel 2007, tra bod archebion masnachol yn disgyn o 34%. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd y sector isadeiledd yn cynyddu o 57% o archebion newydd er bod yna duedd gynhenid yn y farchnad hon i anweddolrwydd oherwydd gwerth uchel cytundebau unigol. Y sector di-dai cyhoeddus oedd yr unig un arall i weld cynnydd mewn archebion newydd yn 2008 gyda'r cynnydd o 17% yr un maint â'r gostyngiad yn y flwyddyn flaenorol. Yn olaf, roedd y cyfyngiad yn yr archebion o 13% ar gyfer tai cyhoeddus yr un lleiaf.


## 2.7 Archebion adeiladu newydd – sefyllfa bresennol

Yn nhri chwarter cyntaf 2009, cyfanswm archebion gwaith newydd oedd £1.2bn (prisiau presennol), gostyngiad pellach o 3% o gymharu â'r cyfnod cyfatebol yn 2008. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y dirywiad mewn archebion newydd yng Nghymru'n arafu ar ôl dwy flynedd wael iawn.

Y sectorau tai preifat a masnachol oedd yr unig farchnadoedd i weld dirywiad yn naw mis cyntaf 2009, 12% a 38% yn eu trefn, yn flynyddol. Roedd hyn yn arwydd clir o'r anawsterau parhaus oedd yn wynebu'r economi leol wrth i'r galw am dai newydd a chyfleusterau masnachol a mân werthu aros yn isel. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd archebion newydd ar gyfer y sectorau tai cyhoeddus a diwydiannol yn cynyddu o 96% i £110m a 63% i £117m yn ôl eu trefn, dros yr un cyfnod.

Roedd y twf mewn archebion newydd ar gyfer y sectorau isadeiledd a di-dai cyhoeddus yn dawelach. Roedd y cyntaf yn dangos ffigwr o £282m rhwng Ionawr a Medi 2009, cynnydd o 1% blwyddyn ar ôl blwyddyn tra bod cynnyrch yr olaf o £267m yn gynnydd o 5%.

## Twf archebion adeiladu newydd 1993-2008 – Cymru vs Prydain




Ffynhonnell: ONS
Cyf. CSN Explained, Adran 4, Nodyn 4

## 2.8 Cynnyrch adeiladu – rhagolygon tymor byr (2010-2011)

Cyhoeddir ystadegau cynnyrch Swyddfa Ranbarthol Ystadegau Gwladol mewn prisiau presennol ac felly maen nhw'n gynhwysol o unrhyw effaith chwyddiannol. Adeg ysgrifennu hwn, dim ond am ddau chwarter cyntaf 2009 mae ystadegau cynnyrch adeiladu ONS ar gael.

Roedd cyfanswm cynnyrch adeiladu yng Nghymru dros £2bn hyd at ddiwedd Mehefin 2009, i lawr 18% o'u cymharu â'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol. Roedd y dirywiad yn y sector gwaith newydd yn fwy serth na'r un R&M, gyda'r cyntaf yn gweld cyfyngiad mewn cynnyrch o 24% i £1.2bn, a'r olaf, gostyngiad o 8% i £846m.

Ar sail cyfartaledd blynyddol rhwng 2010 a 2011, disgwylir i gynnyrch gwaith newydd dyfu o 3.9% lle bydd R&M yn gweld cynnydd o ryw 0.8%. Rhagfynegir y bydd cyfradd twf cyfanswm cynnyrch adeiladu yng Nghymru'n 2.7%, gyda 2010 a 2011 yn debygol o weld cynnydd o tua 2% a 3% yn eu trefn blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Yn ystod chwe mis cyntaf 2009, roedd cynnyrch y sector tai cyhoeddus yn cynyddu o 79%. Mae'n debygol bod y twf yn y sector wedi'i gefnogi wrth fod mwy o arian ar gael ar gyfer tai cymdeithasol fel rhan o addewid Cynulliad Cymru i gynyddu'r ddarpariaeth o unedau fforddiadwy. Mae gwaith adeiladu fel rhan o'r rhaglen yn debygol o lifo i mewn i 2010 a 2011, gan roi cyfartaledd twf blynyddol rhwng y ddwy flynedd o 9.4%.

Mewn gwrthgyferbyniad, roedd cynnyrch yn y sector tai preifat yn dirywio o 43% blwyddyn ar ôl blwyddyn yn nau chwarter cyntaf 2009. Rhagwelir y bydd y gostyngiad mewn prisiau tai, ynghyd â'r cyfyngu ar arian ar gyfer morgeisi i ddefnyddwyr yn cadw'r gweithgaredd yn y sector ar ei lefel isaf. Fodd bynnag, dylai cynnyrch fownsio'n ôl gyda chynnydd cymedrol yn 2010, ar ôl gweld dirywiad serth yn y flwyddyn flaenorol, cyn gweld cynnydd iach pellach yn 2011 wrth i amodau economaidd wella a hyder prynwyr gynyddu.

Gostyngodd cynnydd isadeiledd o 18% yn nau chwarter cyntaf 2009 o gymharu â'r cyfnod cyfatebol yn 2008. Er eu bod yn rhagfynegi y bydd cynnyrch yn y sector yn cyfyngu yn 2009, disgwylir i'r bownsio'n ôl yn 2010 a 2011 fod yn gadarn. Mae'r cynnydd ffigwr dwbl am y ddwy flynedd wedi'u priodoli i nifer o gynlluniau gan gynnwys y cyswllt traffordd tair lôn ddeuol gwerth £250m rhwng Magwyr a Chas-bach a gorsaf generadu tyrbin nwy cylch cyfunol 200MW gwerth £800m ym Mhenfro fydd yn dechrau ar safle yn y dyfodol agos.

Roedd y cynnyrch yn y sector di-dai cyhoeddus yn cynyddu o 5% yn chwe mis cyntaf 2009. Ar sail cyfartaledd blynyddol rhwng 2010 a 2011, rhagfynegir y bydd y raddfa dwf yn y sector yn 6.2% wrth i'r ail dranche o arian 'Trosiannol' ddod. Mae'r rhaglen waith yn rhan o ymgyrch Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pob ysgol a choleg yn 'addas i bwrpas'.


Yn olaf, rhagfynegir mai'r sector masnachol yw'r unig un mewn gwaith newydd i fod â chyfartaledd twf blynyddol negyddol (-10%) rhwng 2010 a 2011. Fodd bynnag, dylai prosiectau fel y ganolfan data £200m yng Nghasnewydd a chanolfan siopa £120m, hefyd yng Nghasnewydd, atal cynnyrch yn y sector rhag gostwng fel y gallai fel arall wneud. Roedd cyflwr gwan y sector yng Nghymru'n amlwg yn nau chwarter cyntaf 2009 wrth i'r cynnyrch gyfyngu o 24% yn flynyddol.

### Cynnyrch adeiladu – Cymru (£miliwn, prisiau 2005)

| | Union | Rhagfynegiad o % y newid blynyddol | | | Cyfartaledd blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2010-2011 |
| Tai cyhoeddus | 95 | 46% | 14% | 5% | 9.4% |
| Tai preifat | 536 | -25% | 5% | 9% | 7.2% |
| Isadeiledd | 391 | -6% | 14% | 10% | 11.7% |
| Di-dai cyhoeddus | 504 | 14% | 11% | 1% | 6.2% |
| Diwydiannol | 198 | -51% | 1% | 4% | 2.3% |
| Masnachol | 718 | -33% | -16% | -4% | -10.0% |
| **Gwaith newydd** | **2,441** | **-16%** | **4%** | **4%** | **3.9%** |
| Tai R&M | 798 | -4% | 3% | 5% | 4.3% |
| Di-dai R&M | 598 | -9% | -6% | -2% | -4.2% |
| **Cyfanswm R&M** | **1,395** | **-6%** | **-1%** | **2%** | **0.8%** |
| **Cyfanswm gwaith** | **3,837** | **-12%** | **2%** | **3%** | **2.7%** |

Ffynhonnell: Experian
Cyf. CSN Explained, Adran 4 Nodiadau 1 a 2

## Cyfartaledd blynyddol twf cynnyrch adeiladu 2010-2011 – Cymru




Ffynhonnell: Experian
Cyf. CSN Explained, Adran 4, Nodyn 2

## 2.9 Cynnyrch adeiladu – rhagolygon tymor hir (2010-2014)

Rhagfynegir y bydd cyfanswm y cynnyrch adeiladu'n cynyddu ar gyfartaledd blynyddol o 2.5% rhwng 2010 a 2014. Disgwylir i'r farchnad gwaith newydd berfformio'n well na'r farchnad R&M gyda chyfartaledd twf blynyddol o 3% ar gyfer y cyntaf ac 1.8% ar gyfer yr olaf. Priodolir y cynnyrch gwannach ar gyfer y farchnad R&M oherwydd perfformiad gwaith y sector di-dai R&M. Mewn gwrthgyferbyniad, dylai'r farchnad dai R&M fod yn eithaf da wrth iddi elwa o fwy o weithgaredd drwy'r cynllun Safonau Ansawdd Tai.

Gyda chyfartaledd twf blynyddol o bron i 8%, mae'r sectorau tai preifat ac isadeiledd, yn eu trefn, yn debygol o fod y sêr o safbwynt perfformiad dros y cyfnod canolig. Disgwylir i'r cyntaf elwa o alw gwaelodol yn y farchnad dai, sydd wedi gwaethygu oherwydd y diffyg cyfateb tymor hir rhwng cyflenwi a galw am unedau. Yn y cyfamser, rhagfynegir hefyd y bydd y sector isadeiledd yn gwneud yn dda ar sail y bydd nifer o brosiectau'n dechrau yn rhan gyntaf y cyfnod o ragfynegiad fel y datblygiad £140m ar y Briffordd A465 rhwng y cyffyrdd gyda'r A467 a'r A4048.

Disgwylir i'r gyfradd dwf ar gyfer y sector diwydiannol fod ar gyfartaledd blynyddol o 3.9% rhwng 2010 a 2014. Disgwylir i'r cynnydd bychan yn 2010 gael ei ddilyn gan gynnydd cymedrol blwyddyn ar ôl blwyddyn hyd at ddiwedd y cyfnod o ragfynegiad wrth i'r economi byd-eang wella a'r galw domestig a thramor gynyddu. Yn y cyfamser, disgwylir i'r sector tai cyhoeddus ddangos cyfradd dwf ychydig yn llai o 3% dros yr un cyfnod, yn bennaf oherwydd y gostyngiad mewn gweithgaredd yn y ddwy flynedd olaf o'r cyfnod o ragfynegiad. Fodd bynnag, yn y tymor byrrach, dylai cynnyrch yn y sector gynyddu'n gadarn wrth i fwy o arian o Gynulliad Cymru ddatblygu prosiectau adeiladu yn y dyfodol.

Y sectorau di-dai cyhoeddus a masnachol yw'r unig rai lle rhagfynegir y bydd cyfradd dwf negyddol dros y tymor hir. Ar sail cyfartaledd blynyddol, disgwylir i'r cyntaf ostwng o 1.7% a'r olaf o 1.1.%. Bydd y llywodraeth o dan bwysau mawr i dorri gwariant cyfalafol pan fydd yr economi'n symud allan o'r dirwasgiad ac, ar ôl 2011, mae hyn yn debygol o fwydo drwyddo'n benodol i mewn i is-sectorau cyhoeddus addysg a iechyd yng Nghymru.


Yn y sector masnachol, mae'r dirywiad yn y ddwy flynedd gyntaf o'r cyfnod o ragfynegiad yn arwain at gyfartaledd twf blynyddol negyddol rhwng 2010 a 2014, er gwaethaf rhagfynegiad o dwf o 2012 ymlaen. Mae'n debyg mai'r anawsterau wrth geisio cael credyd fydd y prif rwystr i ddatblygwyr, er wrth i'r economi ddechrau gwella, y disgwyl yw y bydd nifer o gynlluniau mân werthu, swyddfeydd a hamdden yn ôl ar y llwybr. Ymhlith y prosiectau sydd i'w dechrau mae datblygu swyddfeydd gwerth £100m yn Wrecsam, sydd i ddechrau ar ddiwedd 2010 a pharhau i mewn i ganol 2013.

## Cynnyrch adeiladu – Cymru (£m, prisiau 2005)

| | Brasamcan | Rhagfynegiad o % y newid blynyddol | | | | | Cyfartaledd blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2010-2014 |
| Tai cyhoeddus | 138 | 14% | 5% | 2% | -2% | -3% | 3.0% |
| Tai preifat | 404 | 5% | 9% | 11% | 11% | 4% | 7.9% |
| Isadeiledd | 367 | 14% | 10% | 8% | 4% | 4% | 7.8% |
| Di-dai cyhoeddus | 573 | 11% | 1% | -9% | -8% | -3% | -1.7% |
| Diwydiannol | 97 | 1% | 4% | 4% | 6% | 5% | 3.9% |
| Masnachol | 481 | -16% | -4% | 2% | 5% | 9% | -1.1% |
| **Gwaith newydd** | **2,061** | **4%** | **4%** | **2%** | **2%** | **3%** | **3.0%** |
| Tai R&M | 768 | 3% | 5% | 5% | 3% | 3% | 3.8% |
| Di-dai R&M | 545 | -6% | -2% | 2% | 0% | 0% | -1.4% |
| **Cyfanswm R&M** | **1,312** | **-1%** | **2%** | **4%** | **2%** | **2%** | **1.8%** |
| **Cyfanswm gwaith** | **3,374** | **2%** | **3%** | **3%** | **2%** | **2%** | **2.5%** |

Ffynhonnell: CSN, Experian
Cyf: CSN Explained Adran 4 Nodyn 2

## Cyfartaledd twf blynyddol cynnyrch adeiladu 2010-2014 – Cymru




Ffynhonnell: CSN, Experian
Cyf. CSN Explained, Adran 4, Nodyn 2

# 3 Rhagolygon swyddi adeiladu yng Nghymru

## 3.1 Cyfanswm rhagolygon swyddi adeiladu fesul galwedigaeth

Mae'r tabl yn cyflwyno union swyddi adeiladu (SIC 45 a 74.2) yng Nghymru yn 2008, rhagfynegiad o'r cyfanswm swyddi mewn 26 grŵp galwedigaethol ac yn y diwydiant yn gyfan gwbl rhwng 2010 a 2014. Ceir dadansoddiad llawn o grwpiau galwedigaethol yn Adran 5 CSN Explained.

Rhagfynegir y bydd cyfanswm y swyddi adeiladu yn 2014 yn cyrraedd 127,680 ychydig yn is na'r cynnyrch yn 2008 ond i fyny 8.9% ar y cyfanswm a ragfynegwyd ar gyfer 2010. Yn 2014, rhagfynegir y bydd 113,920 yn gweithio yn SIC 45 tra disgwylir y bydd 13,760 yn gweithio yn SIC 74.2.

Y grŵp swyddi mwyaf yng Nghymru yn 2008 oedd y fasnach goed a dodrefnu mewnol – yn cyfrif am tua 13% o gyfanswm y gweithlu, ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gyda chyfanswm o 8,710 a 8,180, y grwpiau galwedigaethol masnach ail fwyaf oedd y rheolwyr adeiladu a'r fasnach drydanol a gosod, yn eu trefn.

Mewn termau absoliwt, disgwylir mai'r twf mwyaf mewn swyddi adeiladu fydd labrwyr nec* (1,800) a gweithredwyr peirianneg sifil nec* (1,120) rhwng 2010 a 2014. Fodd bynnag, yn nhermau canrannau, rhagfynegir mai'r galw mwyaf fydd am beirianwyr/ffitwyr ffatrïoedd (50%) a gweithredwyr peirianneg sifil nec* (33%).

Ni fydd pob galwedigaeth o reidrwydd yn gweld twf rhwng 2010 a 2014 gan y bydd y cymysgedd o waith yng Nghymru'n newid. Yn benodol, mae'n bosibl y bydd llai o alw am adeiladwyr dur yn y tymor canolig.

| Cyfanswm rhagolygon swyddi adeiladu fesul galwedigaeth | Union 2008 | Rhagolwg 2010 | Rhagolwg 2014 |
|---|---|---|---|
| Uwch reolwyr, rheolwyr gweithredol a rheolwr prosesu busnes | 2,830 | 2,770 | 3,290 |
| Rheolwyr adeiladu | 8,710 | 7,820 | 8,290 |
| Staff di-adeiladu proffesiynol, technegol, TG ac eraill mewn swyddfa | 10,810 | 10,560 | 12,080 |
| Masnach goed a dodrefnu mewnol | 16,950 | 15,200 | 15,830 |
| Bricwyr | 4,860 | 4,950 | 5,220 |
| Arbenigwyr amlenni adeiladu | 6,690 | 5,950 | 6,050 |
| Paentwyr ac addurnwyr | 6,930 | 6,680 | 7,150 |
| Plastrwyr a leinwyr sych Towyr | 3,580 | 2,880 | 2,870 |
| Rheolwyr adeiladu | 1,310 | 1,290 | 1,370 |
| Rhai sy'n gosod lloriau | 1,540 | 1,560 | 1,550 |
| Gwydrwyr | 2,630 | 2,690 | 2,870 |
| Gweithredwyr adeiladu arbenigol nec* | 4,480 | 3,900 | 3,910 |
| Sgaffaldwyr | 2,250 | 1,620 | 1,850 |
| Gweithredwyr ffatri | 3,990 | 3,650 | 4,410 |
| Peirianwyr/ffitwyr ffatri | 1,440 | 1,030 | 1,550 |
| Adeiladwyr dur/strwythurol | 2,840 | 1,980 | 1,740 |
| Labrwyr nec* | 7,660 | 6,790 | 8,590 |
| Masnach drydan a gosod | 8,180 | 8,590 | 8,330 |
| Plymwyr a Masnach HVAC | 7,360 | 6,850 | 7,190 |
| Logisteg | 2,440 | 2,050 | 2,410 |
| Gweithredwyr peirianneg sifil nec* | 3,960 | 3,440 | 4,560 |
| Gweithredwyr di-adeiladu | 2,240 | 2,170 | 2,830 |
| Peirianwyr sifil | 3,880 | 3,540 | 3,890 |
| Gweithwyr proffesiynol adeiladu a staff technegol eraill | 6,090 | 5,290 | 5,570 |
| Penseiri | 860 | 950 | 1,180 |
| Tirfesuryddion | 3,490 | 3,110 | 3,110 |
| **Cyfanswm (SIC 45)** | **113,680** | **104,400** | **113,920** |
| **Cyfanswm (SIC 45 a 74.2)** | **128,000** | **117,290** | **127,680** |

Ffynhonnell: ONS, CSN, Experian
Cyf. CSN Explained, Adran 4, Nodiadau 5 a 6

* nec – heb eu dosbarthu mewn man arall

## 3.2 Gofyniadau recriwtio blynyddol (ARR) fesul galwedigaeth

Gofyniad crynswth yw'r ARR sy'n ystyried llif gweithlu i mewn ac allan o adeiladu oherwydd ffactorau fel symudiadau rhwng diwydiannau, ymfudiad, salwch ac ymddeoliad. Fodd bynnag, nid yw'r llif hwn yn cynnwys symudiadau i mewn i'r diwydiant o hyfforddiant, er bod data cadarn am ddarpariaeth hyfforddiant yn cael ei ddatblygu gan Sgiliau Adeiladu mewn partneriaeth gyda chynrychiolwyr asiantaethau arian cyhoeddus, Addysg Bellach, Addysg Uwch a chyflogwyr. Felly, mae'r gofyniad recriwtio blynyddol yn rhoi arwydd o'r nifer o gyflogai newydd fydd angen eu recriwtio i mewn i adeiladu bob blwyddyn er mwyn gwireddu'r cynnyrch a ragfynegwyd.

Gwelir y gofyniad recriwtio blynyddol (ARR) ar gyfer y 26 grŵp galwedigaethol o fewn diwydiant adeiladu Cymru rhwng 2010 a 2014 yn y tabl. Mae'r ARR o 5,030 yn arwyddol o gyfartaledd y gofyniadau bob blwyddyn o fewn y diwydiant, wedi'u seilio ar ragfynegiadau cynnyrch i'r genedl.

Disgwylir i'r fasnach goed a'r dodrefnu mewnol (1,070) gael yr ARR mwyaf er, fel canran swyddi 2010, rhagfynegir mai grwpio logisteg (13.2%) fydd yr un â'r galw mwyaf. Ar 9.7% yr un, rhagfynegir hefyd y bydd peirianwyr/ffitwyr ffatri a labrwyr nec* ag ARR uchel fel cyfran o'u swyddi yn 2010.

Sylwer bod yr holl ARR's a gyflwynir yn yr adran hon yn ofyniadau swyddi a ddim o reidrwydd yn ofyniadau hyfforddiant. Mae hyn oherwydd bod rhai newydd sy'n cael eu derbyn i'r diwydiant adeiladu, e.e. mudwyr medrus neu rai o ddiwydiannau eraill lle defnyddir sgiliau tebyg yn barod, yn gallu gweithio yn y diwydiant heb fod angen ail hyfforddi.

Mae gweithredwyr di-adeiladu yn grŵp o swyddi amrywiol gan gynnwys yr holl weithgareddau o dan yr ymbarél SIC 45 a SIC 74.2 na ellir eu dosbarthu mewn man arall, e.e. glanhawyr, galwedigaethau diogeledd elfennol nec* a goruchwylwyr a phrofwyr arferol. Mae'r sgiliau sy'n angenrheidiol yn y swyddi hyn yn gallu cael eu trosglwyddo'n hawdd i ddiwydiannau eraill ac mae rhagfynegi symudiad o'r fath yn beryglus o gofio'r diffyg data cefnogol cadarn. Felly nid yw'r ARR ar gyfer gweithredwyr di-adeiladu yn cael eu cyhoeddi.

Yn olaf, ar gyfer rhai grwpiau o swyddi, ni fydd gofyniad y gellir ei werthfawrogi dros gyfnod y rhagfynegiad. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod y dirwasgiad yn creu 'cronfa' o ormod o weithwyr.

| **Cyfanswm rhagolygon swyddi adeiladu fesul galwedigaeth** | **2010-2014** |
|---|---|
| Uwch reolwyr, rheolwyr gweithredol a rheolwr prosesu busnes | - |
| Rheolwyr adeiladu | 280 |
| Staff di-adeiladu proffesiynol, technegol, TG ac eraill mewn swyddfa | 960 |
| Masnach goed a dodrefnu mewnol | 1,070 |
| Bricwyr | 340 |
| Arbenigwyr amlenni adeiladu | 110 |
| Paentwyr ac addurnwyr | 370 |
| Plastrwyr a leinwyr sych Towyr | - |
| Rheolwyr adeiladu | <50 |
| Rhai sy'n gosod lloriau | <50 |
| Gwydrwyr | 250 |
| Gweithredwyr adeiladu arbenigol nec* | 90 |
| Sgaffaldwyr | <50 |
| Gweithredwyr ffatri | <50 |
| Peirianwyr/ffitwyr ffatri | 100 |
| Adeiladwyr dur/strwythurol | - |
| Labrwyr nec* | 660 |
| Masnach drydan a gosod | - |
| Plymwyr a Masnach HVAC | 80 |
| Logisteg | 270 |
| Gweithredwyr peirianneg sifil nec* | <50 |
| Gweithredwyr di-adeiladu | - |
| Peirianwyr sifil | 220 |
| Gweithwyr proffesiynol adeiladu a staff technegol eraill | 60 |
| Penseiri | 60 |
| Tirfesuryddion | <50 |
| **Cyfanswm (SIC 45)** | **4,670** |
| **Cyfanswm (SIC 45 a 74.2)** | **5,030** |

Ffynhonnell: CSN, Experian
Cyf. CSN Explained, Adran 4, Nodiadau 5 a 6

* nec – heb eu dosbarthu mewn man arall

# 4 Cymariaethau ar draws y DU

Rhwng 2010 a 2014, disgwylir i gynnyrch adeiladu ym mhob rhanbarth gynyddu. Disgwylir i gyfartaledd blynyddol y cynnydd o 2.5% fod yn arwyddocaol uwch na'r DU yn gyffredinol (1.7%) a'r pedwerydd uchaf o'r 12 rhanbarth a chenedl.

Y sector isadeiledd ddylai fod y farchnad sy'n perfformio orau mewn gwaith newydd yn y DU rhwng 2010 a 2014. Rhagfynegir y bydd twf cynnyrch isadeiledd Llundain fwyaf yn hynod o gryf – oherwydd gwaith ar Crossrail, Thameslink a rhaglen Thames Water – a gallai Dwyrain Lloegr fod â chyfradd twf ffigwr dwbl hefyd. Yng Nghymru, mae nifer o gynlluniau yn y sector yng nghyfnod cynnar y cyfnod o ragfynegiad, fodd bynnag, gan nad oes unrhyw brosiect mawr yn barod i ddechrau yn 2013 a 2014. Y disgwyl yw y bydd cyfradd y cyfartaledd twf blynyddol yn gymedrol ar ei orau.


Nid oes gan Gymru raglen o fuddsoddi mewn ysgolion ar yr un llinellau â Building Schools for the Future (BSF) yn Lloegr ac felly nid yw wedi gweld y cyfraddau twf hynod gadarn a welwyd mewn rhai o'r rhanbarthau yn Lloegr yn y blynyddoedd diweddar. Ochr gadarnhaol hyn yw pan fydd toriadau gwariant cyhoeddus yn dechrau brathu, ni fydd yr effaith ar y sector di-dai cyhoeddus yng Nghymru cymaint ag ar rai rhanbarthau yn Lloegr, gan mai'r rhaglen BSF yw'r un a fydd o dan fygythiad mae'n sicr mewn amgylchiadau ariannol tynnach. Felly mae'r gostyngiad a ragfynegir mewn cynnyrch i'r sector di-dai cyhoeddus ar sail cyfartaledd blynyddol (1.7%) yn debygol o fod yn un o'r rhai lleiaf wrth gymharu ag ardaloedd eraill yn y DU.

Y sector sy'n sefyll allan yng Nghymru wrth gymharu â gweddill y DU yw'r sector tai R&M. Gyda chyfartaledd twf blynyddol o 3.8% dros 2010-2014, disgwylir mai hwn fydd y cryfaf o'r rhanbarthau a'r gwledydd yn y DU ac mae'n llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 4%. Rhagfynegir y bydd y twf yn cael ei yrru gan y cynllun Safonau Ansawdd Tai er bod rhai pryderon a fydd yn dal yn y llun pan fydd y llywodraeth wedi edrych ar feysydd i ostwng y gwariant.

Rhwng 2010 a 2014, brasamcanir y bydd yr ARR ar gyfer Dwyrain Lloegr (7,350) yr uchaf o holl wledydd aRhanbarthau'r DU. Rhagfynegir mai'r Alban (7,220) fydd yr ail, Dwyrain Canolbarth Lloegr y trydydd (5,260) a Chymru'n bedwerydd (5,030). Disgwylir i gynllun Safonau Ansawdd Tai Cymru fod yn un o'r prif resymau y tu ôl i'r ARR uchaf gan fod y farchnad R&M yn llawer mwy llafurddwys o gymharu â gwaith newydd ac felly'n creu mwy o swyddi i bob £1m o gynnyrch. Er bod yr un peth i raddau'n wir am Ddwyrain Lloegr gan fod ganddo farchnad R&M fawr, tra bod ARR uchel yr Alban o ganlyniad i all-lif net uchel o'r rhanbarth ac felly'r angen am amnewid y rhai sydd wedi gadael y diwydiant lleol.

Mewn cyferbyniad, gan Ogledd Iwerddon mai'r ARR lleiaf (720). Marchnad adeiladu fechan iawn sydd gan y rhanbarth ac felly mae'r nifer o weithwyr adeiladu sydd eu hangen dros y llif naturiol yn y farchnad swyddi'n debygol o fod yn fychan.

## Cyfartaledd blynyddol twf cynnyrch fesul rhanbarth 2010-2014




Ffynhonnell: Cyf. CSN Explained Adran 4, Nodyn 2


Disgwylir i gyfradd cynnydd cyfartaledd blynyddol Cymru o

2.5%

fod yn arwyddocaol uwch na chyfartaledd y DU

* nec – heb eu dosbarthu mewn man arall

## Gofyniad recriwtio blynyddol (ARR) fesul rhanbarth 2010-2014




Ffynhonnell: CSN, Experian





Gwaith Safonau Ansawdd Tai Cymru yw un o'r prif resymau dros ARR o

# 5,030

CMI-1291 (01/10)


Mae'r deunyddiau hyn ynghyd â'r holl hawliau eiddo deallusol o'u mewn yn perthyn i Hawlfraint Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (Sgiliau Adeiladu) 2005 ("Sgiliau Adeiladu") ac ni ddylid eu copïo, eu hatgynhyrchu na'u trosglwyddo i drydydd parti heb gytundeb ysgrifenedig blaenorol Sgiliau Adeiladu. Llunnir y deunyddiau hyn drwy ddefnyddio data a gwybodaeth a geir gan Sgiliau Adeiladu a/neu EXPERIAN Cyfyngedig ("Experian") gan drydydd parti. Nid oes gan EXPERIAN na Sgiliau Adeiladu unrhyw reolaeth ar y rhain ac ni allan nhw wirio cywirdeb. Felly, nid yw EXPERIAN na Sgiliau Adeiladu'n rhoi unrhyw warant am gywirdeb nac addasrwydd ar gyfer unrhyw bwrpas arbennig y deunyddiau hyn. Hefyd, nid yw'r deunyddiau hyn yn cynnwys cyngor ac ni ddylid eu defnyddio fel prif sail unrhyw benderfyniad busnes. Oherwydd hyn, ni all EXPERIAN na Sgiliau Adeiladu fod yn gyfrifol am unrhyw benderfyniadau a wneir ar sail y rhain. Cydnabyddir na ellir cymryd fel gwarant unrhyw ganlyniad neu ddeilliant arbennig deunyddiau sy'n defnyddio data empirig a/neu ddata ystadegol a/neu fodelu data a/neu dechnegau rhagfynegi i roi data arwyddol a/neu ddata rhagfynegol.

I gael mwy o wybodaeth am y **Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu,** cysylltwch â:
**Sandra Lilley**
Rheolwr CSN
0300 456 7933
sandra.lilley@cskills.org

**http://www.cskills.org/contact-us/offices.aspx**

**Gwefan cskills**
http://www.cskills.org/

**Tudalen we CSN**
http://www.cskills.org/supportbusiness/businessinformation/csn/index.aspx



Cynghrair
Cynghorau Sgiliau Sector

Mae CITB-SgiliauAdeiladu, CIC a CITB-SgiliauAdeiladu Gogledd Iwerddon yn gweithio fel Sgiliau Adeiladu, Cyngor Sgiliau Sector y Diwydiant Adeiladu (Rhif Elusen Gofrestredig CITB-SgiliauAdeiladu = 264289)

Cynnwys
1 Crynodeb a'r prif ddarganfyddiadau
2 Rhagolwg ar gyfer adeiladu yng Nghymru
3 Rhagolygon swyddi adeiladu yng Nghymru
4 Cymariaethau ar draws y DU